

Hafan
Pori
Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

English

PDF Argraffu Cyfeirnod

Linell Amser English

Hafan Pori Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

LLOYD (TEULU), Dolobran, Sir Drefaldwyn

Bu teulu Llywdiaid Dolobran, plwyf Meifod, Sir Drefaldwyn, yn enwog yn hanes Crynwyr Cymru, yn y diwydiant haearn, byd bancio, ac mewn gweinyddiaeth gyhoeddus yn yr Unol Daleithiau a'r Ymerodraeth Brydeinig. Fel nifer o deuluoedd eraill ym Mhowys olrheiniant eu tras o ALETH frenin Dyfed. Yn ôl traddodiad ffodd CELYNIN AP RHIRYD o Ddyfed i Bowys ar ôl iddo ladd maer Caerfyrddin. Yr oedd Kelennyn ap Ririd yn rheithiwr ym Mechain Uchcoed yn 1292. Cymysgylt iawn yw canghennau uchaf yr ach, a rhoddir Gwladys ferch ac aeres **Rhiryd ap Cynfrig Efell** o Lwydiarth yn wraig i Riryd ac i'w fab Celynin. Yn ôl **Dwnn**, mam Celynin oedd Gwladys ferch Maredudd ap Rhydderch o Dewdwr Mawr. Rhoddir Gwenllian ferch Adda ap Meurig ap Pasgen hefyd yn wraig i Gelynin ac i'w fab EINION. Dichon mai'r un Adda ap Meurig oedd rheithor segur Meifod tua 1265. Yr oedd Einion yn fyw yn 1340. Enwir LLYWELYN ab EINION mewn pardwn a roes Edward de Cherleton, arglwydd Powys, i'w wŷr, Gruffudd ap Jankyn ap Llywelyn, 1419, am ei ran yn rhyfel **Owain Glyn Dŵr**. Yr oedd ei weddw, Lleucu ferch Gruffudd ab Ednyfed Llwyd o Faelor, yn fyw y pryd hwnnw. DEIO ap LLYWELYN, ei drydydd mab, yw'r cyntaf a gysylltir wrth Ddolobran. (O'r mab hynaf, Jankyn, y disgynnai teulu **Fychaniaid** Llwydiarth.) Gwraig gyntaf Deio oedd Mari ferch Gruffudd Goch o'r Un-dre-ar-ddeg ('Ruyton XI Towns'), neu'r Cnwcin. O'r briodas hon y tarddai Fychaniaid y Glasgoed, ac wŷr i'r ddau oedd **Dafydd ab Owain**, abad ac esgob. IEUAN TEG AP DEIO, mab yr ail wraig, Meddefus, ferch, neu chwaer, Gruffudd Fychan, Deuddwr, a gweddw Dafydd Aber efallai, a etifeddodd Ddolobran. Mawd ferch **Ieuan Blaenau** o Dregynon (bwrtais yn y Trallwng, 1406) oedd ei wraig. Gwraig OWAIN HIR AB IEUAN TEG oedd Catrin ferch Rheinalt, mab **Syr Gruffudd Fychan**, Cegidfa, a lofruddiwyd yn y Castell Coch yn 1447. Priododd IEUAN neu IEUAN LLWYD ab OWAIN Wenhwylfar ferch Maredudd Llwyd o Feifod. Brawd iddo ef oedd John Wyn o'r Dyffryn.

Sefydlwyd y cyfenw Llywd yn y genhedlaeth nesaf gyda DAFYDD LLWYD ab IEUAN ab OWAIN (rheithiwr ym Maldwyn, 1542). Rhoir 1523 fel blwyddyn ei eni, ond anodd cysoni hynny â chywydd moliant **William Llyn** iddo ef a'i wraig Efa ferch Edward ap Rhys, Eglwyseg ('Anodd iawn yw i ddyinion'), lle'r awgrymir eu bod ar derfyn oes. Gosodir y cywydd hwn yn 1562, er efallai nad oes sail i ddyddiad mor gynnar. Canodd **Simwnt Fychan** hefyd foliant y ddeuddyd ('Oes dir i feirdd ysdor faith'). Nid yw'n debyg fod plant o'r briodas hon. Dywedir iddo fod yn briod hefyd â Marred ferch Ieuan Dafydd Goch, ond y mae'n debycach mai gordderch oedd hi. Yr etifedd oedd **Dafydd ap Dafydd Llwyd** y bardd neu David ap David Lloyd fel y'i henwir ar restr rheithwyr Maldwyn o 1576 i 1594. Yr oedd ei fab JOHN LLOYD (ganwyd 1575) hefyd yn fardd. Bu ef yn byw yng Nghoedcowryd, a'i wraig gyntaf oedd ei gyfyrderes, Catrin ferch Humphrey ap John Wyn o'r Dyffryn, ond Elizabeth yw'r wraig a enwir yn ei ewyllys. Diflanna'i enw o blith ustusiaid Maldwyn yn 1638, a phrofwyd ei ewyllys yn 1636. Ganwyd ei etifedd CHARLES LLOYD (I) yn 1613. Helaethodd hwnnw dŷ Dolobran a phriododd Elisabeth ferch Thomas Ystanaï o'r Cnwcin. Dywedir ei fod yn awdurdod ar achau. Bu farw yn gymharol ieuanc a'i gladdu ym Meifod, 17 Awst 1657, gan adael tri mab, CHARLES (ganwyd 9 Rhagfyr 1637), JOHN (ganwyd 1638), a THOMAS (ganwyd 17 Chwefror 1640), y dywedir iddynt eu tri dderbyn addysg yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, ac astudio meddyginiaeth, ond amhendant yw Foster. Y mae gennym air Charles Lloyd ei hun iddo ef a'i frawd, Thomas, fod yn Rhydychen, a dywed **Richard Davies** y Crynwyr i Charles a Thomas ymadael o ddfilastod ar erledigaeth y Crynwyr. Trodd John at y gyfraith gan fod yn un o chwe clerig y Siawnsri a phriodi Jane Gresham, un o ddisgynyddion Syr Thomas Gresham, sefydlydd y 'Royal Exchange.' Glynodd John wrth yr Eglwys Sefydledig a chyflwynodd lestri cymun i eglwys Meifod. Yn 1662 ymunodd Charles Lloyd (II) â'r Crynwyr, ac yr oedd yn un o'r rhai a garcharwyd yn y Trallwng y flwyddyn honno. Dilynodd ei wraig, Elisabeth ferch **Sampson Lort** (gweler dan **Lort**), ef i'r carchar. Caniatawyd iddo gymryd tŷ i'w deulu yn y Trallwng tua 1663 trwy eiriolaeth **Richard Davies** a Thomas Lloyd, ei frawd, a oedd hefyd yn Grynwr erbyn hynny. Rhyddhawyd ef a'i gyfeillion o dan y 'Declaration of Indulgence,' 1672, a dychwelodd i Ddolobran, lle yr ychwanegodd at y tŷ ac adeiladu tŷ cwrrd i'r Crynwyr. Yn 1681, bu ef a'i frawd, Thomas, yn dadlau â **William Lloyd**, esgob Llanelwy, a chlerigwyr eraill. Yn 1682 ymwelodd â Chrynwyr siroedd Henffordd a Worcester, a bu'n gosod achos Crynwyr Bryste gerbron **Syr Leoline Jenkins**. Priododd Ann Lawrence yn 1686. Buasai ei wraig gyntaf farw yn 1685 a chladdesid hi yn y Cloddiau Cochion. Bu yntau farw yn nhŷ ei ferch, Elisabeth Pemberton, yn Birmingham yn 1698, a'i weddw yn 1708, a chladdwyd hwy ym mynwent Bull Street yn y ddinas honno. Gweler bywgraffiad ei thad Charles II, mewn llawysgrif gan ei ferch Elizabeth Pemberton yn Nhŷ'r Crynwyr, Llundain. Argraffwyd llythyr o'i eiddo ynglŷn â thrafodaeth rhwng ei frawd a **Morgan Jones** ar fater darganfod America gan y Cymry yn *British Remains* N. Owen, 1777. Prynasai gyfran, gydag un Margaret Davis, o 5,000 erw gan William Penn ym Mhennsylvania yn 1684. Ymfudodd Thomas Lloyd, a oedd yn bregethwr gyda'r Crynwyr, ac a garcharwyd yn y Trallwng o 1664 i 1672. Wedi ei ryddhau bu ef yn byw yn y Maesmawr, ger y Trallwng, gan oddef cryn erlid a chosbau. Yn 1683 yr aeth ef a'i wraig, merch Gilbert Jones y Trallwng, a'i deulu i Pennsylvania. Hi oedd y gyntaf i'w chladdu ym mynwent Arch Street yn Philadelphia. Dyrchafwyd ef yn llywydd cyngor y dalaith; yn 1684 a bu'n ddirprwy-lywodraethwr dros William Penn hyd 1693 pan gymerwyd y dalaith i feiddiant y Goron. Gwrthwynebai gynlluniau i sefydlu milisia yn y dalaith, ac ef oedd arweinydd mwyaf galluog a phoblogaidd Pennsylvania yn ei gyfnod. Bu farw yn 1694, a'i gladdu yn Philadelphia. Cyhoeddwyd dau bammffed o'i waith: *An epistle to my Dear and well beloved Friends of Dolobran*, 1788, a *A Letter to John Eccles and Wife*, 1805. Perthynas iddo oedd DAVID LLOYD (ganwyd ym Manafon tua 1656, bu farw yn Chester, Pennsylvania, 1731), prif ustus Pennsylvania, ond ni wyddys pa mor agos oedd y berthynas. Diwygiodd David Lloyd gyfieithiad **Rowland Ellis** o *Annerch i'r Cymru Ellis Pugh* yn Saesneg, *A Salutation to the Britains*, Philadelphia, 1727.

Gadawodd Charles Lloyd (II) ddau fab, Charles (ganwyd 1662) a Sampson (ganwyd 1664). Priododd CHARLES LLOYD (III) Sarah ferch Ambrose Crowley yn 1693. Helaethodd lawer ar y tŷ yn Nolobran, a dechreuodd waith haearn ar ei stad, ond cyn 1733 symudodd i Birmingham lle y buasai ei frawd, SAMPSON LLOYD (a fu farw 1724), yn y fasnach haearn. Yno y claddwyd ef yn 1747 neu 1749. Cadwodd ei fab Charles Lloyd (IV), a anwyd yn 1697, ei gysylltiad â Dolobran er fod y stad wedi ei gwystlo'n drwm gan i'w dad golli miloedd yn ei anturiaeth ddiwydiannol. Jane Wilkins oedd ei wraig ef. Priododd un o'u merched, Jane (ganwyd 1728), **Lewis Owen**, Tyddyn-y-garreg, aelod o hen deulu o Grynwr Cymreig. Bu'r etifedd, CHARLES EXTON LLOYD (1726 - 1773) farw yn ddiabrid yn Ffrainc, a gwerthodd ei frawd, James Lloyd (1740 - 1787), a fu yntau farw yn ddiabrid, y stad.

Disgynyddion Sampson Lloyd, ail fab Charles Lloyd (II), oedd y brif linach bellach. Ni pherthyn olrhain yma eu cysylltiadau diddorol â mudiadau crefyddol, dyngarol, a masnachol yn Birmingham a Llundain - gweler Rachel J. Lowe, *Farm and its Inhabitants*, 1883, am gronlïc y teulu mewn crefydd a llenyddiaeth (un ohonynt oedd Charles Lloyd y bardd), yn y diwydiant haearn, yn y banciau a gynrychiolir yn awr gan Fanc Lloyds, ym mudiad rhyddhau'r caethion, etc. Ymhen canrif ailgydasant yn yr hen dreftadaeth. Prynwyd Dolobran a'r hen dŷ cwrrd gan SAMPSON SAMUEL LLOYD yn 1877, ac yr oedd aelod arall o'r teulu, HENRY LLOYD, wedi prynu Dolobran Isaf a Choedcowryd yn 1872-3. Ail fab SAMPSON SAMUEL LLOYD, etifedd y gwŷr a brynodd Ddolobran, oedd GEORGE AMBROSE LLOYD (1879 - 1941), y barwn Lloyd cyntaf o Ddolobran.

Awdur

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

Archifau LIGC: NLW MS 6990E: Material relating to the Lloyd family of Dolobran (extracts)

Archifau LIGC: NLW MS 15348F: The Dolobran Pedigree

Archifau LIGC: NLW MS 24110E: Lloyd of Dolobran achievement of arms

Archifau LIGC: Peniarth MS 287: Robert Vaughan's book of pedigrees

Archifau LIGC: Wynnstay MS 144: The Salusbury collection of pedigrees: Part 2

Archifau LIGC: Dolobran Estate Records

dyddyfrafu John Kelsall (yn y Friends' House, Llundain)

Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarenceux and Norroy, two kings at arms(Llandoverly 1846), i, 294

Burke's Landed Gentry, 1937

Burke's â€¦ *Peerage, Baronetage, and Knighthage*, 1940

Rachel Jane Lowe, *Farm and its Inhabitants with some account of the Lloyds of Dolobran*(London 1883)

C. P. Smith, *Lineage of the Lloyd and Carpenter Family. Compiled from authentic sources* (Camden 1870)

Samuel Lloyd, *The Lloyds of Birmingham, with some account of the founding of Lloyds bank*(Birmingham 1907)

Richard Davies, *An account of the conviction, exercises, services and travels of that ancient servant of the Lord, Richard Davies. With some relation of ancient friends, and the spreading of truth in North-Wales, etc.* (London 1710)

T. A. Glenn, *Merion in the Welsh Tract with sketches of the townships of Haverford and Radnor: historical and genealogical collections concerning the Welsh barony in the province of Pennsylvania, settled by the Cymric Quakers in 1682* (1896)

A. H. Dodd, *The Industrial Revolution in North Wales* (Caerdydd 1933)

Richard Jones, *Crynwyr Bore Cymru 1653-1699* (Abermaw 1931)

T. M. Rees, *A history of the Quakers in Wales and their emigration to North America* (1925)

Dictionary of American Biography, xi

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733831

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Yfrannu

Arddull APA

x

Jones, E. D., (1953). LLOYD (TEULU), Dolobran, Sir Drefaldwyn. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LLOY-DOL-1292>

Yfrannu

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Mudiol gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government